CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru

Cynrychiolwyr Unigolion a Gofalwyr

Eisiau chwarae rhan allweddol wrth wneud penderfyniadau am Wasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Cymru?

Ydych chi'n darparu gofal i rywun sydd ag angen gwasanaethau gofal a chymorth?

Os felly, gallai hyn fod i chi.

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn recriwtio cynrychiolaeth Gofalwyr i'w Fwrdd.

Rydym yn bwriadu recriwtio cynrychiolaeth o Ofalwyr i ymuno â'r Bwrdd o fis Tachwedd/Rhagfyr 2020 am gyfnod o 2 flynedd.

Er mwyn darparu cyfleoedd i gynrychiolwyr Gofalwyr o'r rhanbarth cyfan ni ddylai cynrychiolwyr Gofalwyr blaenorol ailymgeisio nes bod cyfnod o 3 blynedd wedi mynd heibio o ddiwedd y tymor blaenorol ar y bwrdd.

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi cael ei sefydlu gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles newydd (2014) a'i nod yw gwella iechyd a lles holl bobl Gogledd Cymru. Mae'r rôl hon yn wirfoddol, fodd bynnag, telir costau teithio a chynhaliaeth.

Os oes gennych ddiddordeb mewn darganfod mwy am y cyfle cyffrous hwn cysylltwch â Bethan Jones Edwards, Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol (Bethan.m.jonesedwards@sirddinbych.gov.uk) 01824712037

Mynegiadau o ddiddordeb i'w cyflwyno i:
Bethan.m.jonesedwards@denbighshire.gov.uk erbyn 5ed Hydref 2020.

Bethan Jones Edwards
Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol
Swyddfa'r Sir, Ffordd Wynnstay
Rhuthun, LL15 9AZ

Bydd digwyddiad dethol cyfoedion yn cael ei drefnu more fuan a phosib.

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU - Gwybodaeth I Ofalwyr/ Cynrychiolwyr Defnyddwyr Gwasanaeth

1. CEFNDIR

1.1 Mae Byrddau Rhanbarthol yn ofyniad deddfwriaethol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Rhan 9) a Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015.

1.2 Mae'r rheoliadau a nodir gan Lywodraeth Cymru yn sefydlu prif ofynion, diben a chyfrifoldebau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

2. DIBEN

2.1 Bydd y Bwrdd yn rhoi cyngor ac arweiniad strategol; yn gefnogol ac yn galluogi tra hefyd yn herio'n adeiladol, yn benodol mewn perthynas ag:

- Ymateb i asesiad poblogaeth yn unol ag adran 14 o'r Ddeddf;
- Gweithredu'r cynlluniau ar gyfer pob un o ardaloedd yr awdurdodau lleol a gwmpesir gan y Bwrdd o dan adran 14A o'r Ddeddf;
- Sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn darparu digon o adnoddau ar gyfer y trefniadau partneriaeth yn unol â'u pwerau o dan adran 167 o'r Ddeddf;
- Hyrwyddo sefydlu cronfeydd cyfun lle bo hynny'n briodol;
- Sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon i wella canlyniadau i bobl yn eu rhanbarth;
- Paratoi adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru ar y graddau y mae amcanion y bwrdd wedi cael eu cyflawni;
- Darparu arweiniad strategol i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu a'i defnyddio'n effeithiol i wella darpariaeth gwasanaethau, gofal a chymorth, gan ddefnyddio technoleg a systemau cyffredin i fod yn sail i hyn

2.2 Bydd y Bwrdd Rhanbarthol yn rhoi blaenoriaeth i integreiddio gwasanaethau mewn perthynas â:

- Pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau tymor hir, gan gynnwys dementia;
- Pobl ag anableddau dysgu;

- Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc;
- Gwasanaethau Cefnogaeth Integredig i Deuluoedd;
- Plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch.

CYFRIFOLDEBAU GOFALWYR A DEFNYDDWYR GWASANAETH SY'N AELODAU

3. Mae cyfrifoldebau'n cynnwys;

- Darparu safbwynt Gofalwyr ar fusnes y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh), nid yw'n ofynnol i chi roi barn gofalwyr ehangach

- Cyfrannu at drafodaethau sy'n cael eu cynnal yn ystod cyfarfodydd y BPRh, yn seiliedig ar eich profiad eich hun fel gofalwr

- Paratoi ar gyfer cyfarfodydd BPRh drwy ddarllen y rhaglen a'r papurau ymlaen llaw a chodi unrhyw faterion ar gyfer eglurhad gyda'r Cadeirydd neu'r Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol
- Cynnal cyfrinachedd papurau rhaglen, trafodaeth a phenderfyniadau a wnaed

- Mynychu cyfarfodydd BPRh sy'n cael eu cynnal drwy lwyfannau skype neu Dimau ar hyn o bryd

- Gwneud yn siŵr eich bod yn deall blaenoriaethau ac amcanion y BPRh a'u cyfleu i eraill fel sy'n ofynnol

- Darparu cyswllt rhwng y BPRh a defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr eraill fel bo'r angen

- Dod yn aelod o'r grŵp gofalwyr rhanbarthol os yw eich gallu yn caniatáu ar gyfer hyn

- Ymuno â chyfarfodydd cenedlaethol a drefnir gan sefydliadau Gofalwyr cenedlaethol neu Lywodraeth Cymru os yw eich gallu yn caniatáu hyn.

4. Tymor

Dwy Flynedd

5. Amlder y cyfarfodydd

Bob deufis ond ar adegau gall y rhain fod yn amlach.

Y cymorth a gynigir:
Rydym yn rhedeg system 'cyfeillio' lle gallwch gael cymorth gan aelod arall o'r Bwrdd yn ystod eich tymor. Gall maint y cymorth y byddwch ei angen amrywio a'i drefnu yn dilyn trafodaeth bellach.

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

DISGRIFIAD CYFRANOGIAD AR GYFER AELODAU BWRDD UNIGOL A GOFALWYR

PENODIAD: Aelod Gofalwyr ar y Bwrdd, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

YN ATEBOL I'R: Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

YN GWEITHIO GYDAG: Aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, Rhwydweithiau Trydydd Sector lleol, grwpiau unigol a gofalwyr, partneriaid statudol.

AD-DALU Sail wirfoddol gydag ad-daliad llawn o gostau rhesymol

TYMOR PENODI Dwy flynedd

YMRWYMIAD AMSER Oddeutu 1 diwrnod y mis ar gyfer paratoi ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd; os yw eich gallu yn caniatáu mynychu cyfarfodydd eraill yn rhanbarthol neu'n genedlaethol, bydd hyn yn ychwanegol.

Rôl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Lleol Gogledd Cymru

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn darparu arweinyddiaeth i wneud penderfyniadau, canllawiau, dylanwadu a chefnogi i sicrhau darpariaeth lwyddiannus y Gwasanaethau Iechyd a Gofal i Bobl yng Ngogledd Cymru yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014.

Rôl yr Aelod Bwrdd Partneriaeth Unigol a Gofalwyr

Mae Aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn darparu llais ar gyfer pobl o bob oed sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd yr aelodau sy'n cael eu dewis i gynrychioli pobl yn cael eu recriwtio a'u penodi drwy lenwi ffurflen datgan diddordeb. Unwaith y bydd y dyddiad cau wedi mynd heibio, ar yr amod bod manyleb y person wedi'i llenwi'n llwyr ac yn bodloni'r gofynion cyffredinol ar gyfer y swydd, cewch eich gwahodd i gyfarfod dethol cyfoedion a fydd yn cynnwys dau neu dri aelod presennol o'r BPRh i gael trafodaeth fanylach am eich cyflwyniad.

Rhoddir y cymorth priodol i gynrychiolwyr fod yn aelodau cwbl weithredol o'r Bartneriaeth. Bydd papurau'n cael eu dosbarthu wythnos cyn y cyfarfod i ddarllen ac ystyried y wybodaeth.

Bydd dogfennau'n glir ac yn hygyrch, lle defnyddir acronymau neu unrhyw beth nad ydych yn siŵr amdanoch, gallwch ofyn am eglurder i'ch helpu i ddeall y papurau.

Sgiliau Personol

Bydd y meini prawf hyn yn cael eu hasesu yn ystod y broses ymgeisio a'r broses ddethol cyfoedion

MEINI PRAWF	**H= Hanfodol** **D=Dymunol**	**Datganiad Diddordeb / Proses Recriwtio**
Unigolyn mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a ddarperir yng Ngogledd Cymru	**H**	Datganiad Diddordeb
Gofalwr unigolyn sydd wedi defnyddio gwasanaethau iechyd a /neu wasanaethau cymdeithasol a ddarperir yng Ngogledd Cymru	**H**	Datganiad Diddordeb
Parodrwydd i sefydlu cysylltiadau cryf gyda grwpiau /fforymau lleol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol (os yw eich gallu yn caniatáu ar gyfer hyn)	**H**	Datganiad Diddordeb / Proses Ddethol Cyfoedion
Gallu diwallu ymrwymiad amser rheolaidd i gyfranogi at y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	**H**	Datganiad Diddordeb
Y gallu a'r sgiliau i hyrwyddo safbwyntiau gofalwyr ac i adlewyrchu eu safbwyntiau, fodd bynnag, cydnabyddir efallai na fydd yn bosibl i chi gysylltu â Gofalwyr eraill i gael eu barn.	**H**	Datganiad Diddordeb / Proses Ddethol Cyfoedion
Bod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth, polisïau ac arferion iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol a lleol	**H**	Datganiad Diddordeb / Proses Ddethol Cyfoedion
Sgiliau cyfathrebu da ar bob lefel a thrwy amrywiaeth o gyfryngau	**H**	Datganiad Diddordeb / Proses Ddethol Cyfoedion
Gallu bod yn bendant pan fo'r angen	**H**	Proses Ddethol Cyfoedion
Gallu herio, mewn dull adeiladol	**H**	Proses Ddethol Cyfoedion
Yn hyblyg ac yn gallu addasu	**H**	Datganiad Diddordeb/ Proses Ddethol Cyfoedion
Sgiliau TG neu barodrwydd i ddysgu	**D**	Datganiad Diddordeb
Gallu siarad Cymraeg	**D**	Datganiad Diddordeb / Proses Ddethol Cyfoedion

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
Cynrychiolydd Unigolion/Gofalwyr (Oedolion)
Mynegiad o Ddiddordeb

ENW _____

CYFEIRIAD _____

_____

_____

FFÔN _____ Ebost _____

*UNIGOLION/GOFALWYR _____

*** Nodwch a ydych yn ofalwr neu'n unigolyn mewn cysylltiad â gwasanaethau.**

Diogelu Data - Byddwn yn cadw eich manylion cyswllt yn breifat ac yn gyfrinachol. Byddant ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cysylltu â chi'n uniongyrchol ynghylch recriwtio i'r Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru a'r broses ar gyfer aelodaeth. Efallai y bydd y cynnwys eich Mynegiad o Ddiddordeb yn cael ei rannu / defnyddio gyda phobl eraill yn ystod y Broses Ddethol Cyfoedion. Byddwch yn cael cyfle i rannu hyn ym mha bynnag ffordd y dymunwch.

Disgrifiwch eich sgiliau a'ch profiadau isod. Cyfeiriwch at y Disgrifiad Rôl a / neu ddogfennaeth aelodaeth ategol arall a ddarperir.

1. Rydym yn chwilio am bobl sydd â sgiliau dylanwadu a chyfranogi cryf. Disgrifiwch yr hyn yr ydych wedi ei wneud yn y maes hwn. Pwy oeddech chi'n ceisio dylanwadu a / neu gynnwys a pham? Sut wnaethoch chi ddefnyddio'r sgiliau hyn? Beth oedd y canlyniad?

2. Rydym yn chwilio am bobl sy'n gallu tynnu ar eu profiadau diweddar neu gyfredol o ddefnyddio gwasanaethau iechyd a/neu gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru i lywio eu rôl ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Amlinellwch rai o'ch profiad a'ch sut y byddech yn cysylltu i'r rôl hon?

3. Rydym yn chwilio am bobl a all dynnu ar rwydweithiau sy'n bodoli eisoes eich bod yn cymryd rhan ynddynt a/neu gall alluogi potensial i gyrraedd pobl newydd. Disgrifiwch eich profiad o hyn a sut y byddech yn ei ddefnyddio er budd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol? Os gwelwch yn dda, soniwch os ydych yn aelod o sefydliad lleol neu genedlaethol arall megis elusen, grŵp lleol, ac ati

4. Rydym yn chwilio am bobl sy'n gallu gweithio fel rhan o dîm. Sut ydych chi'n neu a oeddech chi'n rhyngweithio gydag aelodau eraill y tîm? Rhowch enghraifft o lwyddiant, a'ch rôl ynddi, gan gynnwys unrhyw broblemau a sut y cawsant eu datrys.

5. Rydym yn chwilio am bobl sydd yn llawn cymhelliant ac yn ymroddedig. Disgrifiwch eich diddordeb mewn bod yn aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol?

Atebwch bob cwestiwn uchod.

Os nad oes gennych ddigon o le o fewn y ffurflen i ysgrifennu popeth a ddymunech, gallwch ategu tudalennau ychwanegol.

Anfonwch eich cais I Bethan.m.jonesedwards@denbighshire.gov.uk erbyn 5ed Hydref 2020

Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
LL15 9AZ